
ADRODDIAD

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

## PLATFFORM 2025



PLATFFORM

# ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU PLATFFORM

## TROSOLWG

**Mae'n ofynnol i bob sefydliad sydd â mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi ac adrodd ar ffigurau penodol am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan edrych yn benodol ar y cyflog cyfartalog (neu gyflog cymedrig) fesul awr i'r ddwy ryw, y cyflog canolrifol (canol) fesul awr i'r ddwy ryw, y bwlch cyflog bonws rhwng y rhywiau (os yw'n berthnasol) a'r cyflog fesul chwartel.**

## BETH YW BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU?

**Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fesur o'r gwahaniaeth yn y cyflog cyfartalog rhwng dynion a menywod, ni waeth beth yw natur eu gwaith, ar draws y sefydliad cyfan. Mae hyn fel arfer yn cael ei fynegi fel canran o gyflog dynion, gyda ffigur positif o blaid dynion, a ffigur negatif o blaid menywod.**

**ER ENGHRAIFFT, OS NODIR BOD Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU YN 3.54% MAE HYN YN GOLYGU BOD DYNION YN ENNILL 3.54% YN FWY NA MENYWOD AR GYFARTALEDD, NEU OS NODIR BOD Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU YN -3.54% MAE HYN YN GOLYGU BOD MENYWOD YN ENNILL 3.54% YN FWY NA DYNION AR GYFARTALEDD.**



Mae llawer o ffactorau yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a bydd y ffactorau hyn yn amrywio ar draws sefydliadau, sectorau a lleoliadau daearyddol.

Mae'n wahanol i gymharu cyflog cyfartal, sef cymharu dau berson neu grŵp o bobl sy'n gwneud yr un gwaith, gwaith tebyg neu waith cyfatebol.

**NID YW PRESENOLDEB BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU YN ARWAIN YN AWTOMATIG AT FATERION GWAHANIAETHU NA CHYFLOG CYFARTAL.**

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU PLATFFORM

**Mae Platfform yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae wedi ymrwymo i roi cyflog teg a chyfartal i bawb sy'n gweithio iddo.**

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed yn canolbwyntio ar ein diwylliant mewnol, gan symud y tu hwnt i'r hyn sy'n "ddigon da" i arwain drwy esiampl. Pwrpas ein gwaith yw cefnogi pobl waeth pa mor gymhleth yw eu problemau, ac mae ein dull o ymdrin â'n pobl ein hunain yn adlewyrchu hyn. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith sy'n hyblyg, yn dosturiol ac yn gefnogol, gyda mynediad at gymorth iechyd meddwl wedi'i wreiddio ar draws ein sefydliad.

Wrth weithio mewn maes mor gymhleth ag iechyd meddwl, rydyn ni'n cydnabod bod cefndiroedd, profiadau a safbwyntiau ein pobl yn gryfder go iawn. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cyfoethogi ein gwaith ac yn ein galluogi i gefnogi'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn well. Felly, mae creu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain yn llwyr yn y gwaith yn hanfodol i bwy ydyn ni.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ystadegau bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Platfform ar adeg benodol (5 Ebrill 2025) ac mae'n seiliedig ar gyflog 'gweithwyr perthnasol sy'n cael cyflog llawn' (gan gynnwys staff llanw).

Nid yw'n cynnwys goramser, tâl sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth nac unrhyw fuddion eraill nad ydynt yn arian parod.




**Ar 5 Ebrill 2025, roedd gan Platfform 341 aelod o staff gan gynnwys staff llanw.**




**Roedd 75.95% (259) yn fenywod**

**Roedd 24.05% (82) yn ddynion**




# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU PLATFFORM

## Y BWLCH CYFLOG CYMEDRIG RHWNG Y RHYWIAU

**Mae'r ffigur cymedrig (neu gyfartalog) yn cael ei gyfrifo drwy gymharu cyflog cyfartalog fesul awr dynion a menywod mewn sefydliad.**

Y gyfradd gymedrig fesul awr ar gyfer staff gwrywaidd yw £15.12, a'r gyfradd gymedrig fesul awr ar gyfer staff benywaidd yw £14.43.

Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn Platfform yw: 4.56%.




Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw: 4.56%

## BWLCH CYFLOG CANOLRIFOL RHWNG Y RHYWIAU

**Mae'r ffigur canolrifol yn cael ei gyfrifo drwy gymharu cyfradd cyflog canolrifol fesul awr menywod a dynion mewn sefydliad.**

Y gyfradd ganolrifol fesul awr ar gyfer staff gwrywaidd yw £12.60, y gyfradd ganolrifol fesul awr ar gyfer staff benywaidd yw £12.86.

Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn Platfform yw: -2.06%.




Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw: -2.06%

**Yn y ddau achos, mae ffigur positif yn dangos bod dynion yn cael mwy o gyflog na menywod, mae ffigur negatif yn dangos bod menywod yn cael mwy o gyflog na dynion ar sail y gyfradd cyflog fesul awr.**




**Mae ein cymhariaeth yn dangos, o ran y gyfradd ganolrifol fesul awr, bod 2.06% o fenywod yn cael mwy o gyflog na dynion ar gyfartaledd yn Platfform..**

## BWLCH CYFLOG BONWS

**Nid oes bwlch cyflog bonws gan nad yw staff yn cael cynnig cyflog bonws oherwydd y ffordd mae'r gwaith yn cael ei ariannu yn Platfform.**



# CHWARTELI CYFLOG:

**Yng nghyd-destun adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae'r pedwar chwartel canlynol yn rhannu gweithlu Platfform yn bedair rhan gyfartal yn seiliedig ar gyflog fesul awr, o'r rhai sy'n ennill y cyflog isaf i'r uchaf. Mae hyn yn helpu i ddangos sut mae cyflogau'n cael eu dosbarthu ar draws gwahanol lefelau'r sefydliad.**

## CHWARTEL ISAF


**Chwartel Isaf - Nifer y staff**

**Menywod 68**



**Dynion 18**







## CHWARTEL CANOL ISAF


**Chwartel Canol Isaf - Nifer y staff**

**Menywod 58**



**Dynion 27**





# CHWARTELI CYFLOG:


## CHWARTEL CANOL UCHAF


**Chwartel Canol Uchaf - Nifer y staff**

**Menywod 70**



**Dynion 15**







## CHWARTEL UCHAF


**Chwartel Uchaf - Nifer y staff**

**Menywod 63**



**Dynion 22**





# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

## BETH SY'N ACHOSI'R BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

**Menywod yw ein gweithlu yn bennaf ar draws pob chwartel cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu natur y gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r ffordd rydyn ni'n cefnogi ein pobl. Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys:**

- **Natur ein gwasanaethau, yn enwedig o ran cymorth, gwasanaethau pobl ifanc a chwnsela, sydd yn draddodiadol yn denu cyfran uwch o ymgeiswyr benywaidd**
- **Ein hymrwymiad cryf i drefniadau gweithio'n hyblyg a chefnogi cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith**
- **Ein dull gweithredu sy'n ystyriol o deuluoedd, gan gynnwys tâl mamolaeth uwch, absenoldeb â thal mewn argyfwng ac absenoldeb i ofalwyr**
- **Ein hawl i wyliau blynyddol sy'n uwch na'r cyfartaledd**

Mae ein data hefyd yn dangos bod cyfle cyfartal i bob rhyw o ran dilyniant a phenodiadau i swyddi uwch. Mae'r gynrychiolaeth fenywaidd yn dal yn uchel ar draws pob chwartel, gan gynnwys y chwartel uchaf, sy'n dangos bod menywod yn symud ymlaen i swyddi â chyflogau uwch yn Platfform, a bod menywod yn cael eu recriwtio i'r swyddi hyn.

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

## MYND I'R AFAEL Â'R BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

**Rydyn ni'n falch iawn o weld bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn llai na 4% o hyd yn Platfform.**

Ers mis Ebrill 2021, rydyn ni wedi talu ein staff yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac wedi cynnal yr ymrwymiad hwn drwy gydol y cyfnod adrodd presennol.

Rydyn ni'n ymdrechu'n barhaus i fod yn gyflogwr teg a chyfrifol, gan adolygu a gwella ein harferion a'n diwylliant gwaith yn rheolaidd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r achrediad Aur a gawsom gan Buddsoddwyr mewn Pobl a'r achrediad Arian a gawsom o dan fframwaith Diverse Cymru yn 2024.

Wedi dweud hynny, rydyn ni'n cydnabod bod angen canolbwyntio'n barhaus ar wneud cynnydd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein prosesau, ein polisïau a'n harferion i gryfhau cydraddoldeb, dathlu amrywiaeth a meithrin ymdeimlad gwirioneddol o berthyn yn Platfform. Dyma ein camau gweithredu parhaus:

- **Parhau i adolygu arferion recriwtio a dethol i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sy'n atal pobl o unrhyw rywedd rhag gwneud cais am swyddi ar draws yr holl chwarteli cyflog yn Platfform.**
- **Datblygu ymhellach bolisïau gweithio'n hyblyg sy'n ystyriol o deuluoedd ac sy'n cefnogi cydweithwyr o bob rhywedd i gydbwyso gwaith ag ymrwymiadau personol a theuluol.**
- **Parhau â'n hymdrechion i adeiladu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n gweithio ynddyn nhw'n well.**

# DATGANIAD ATEGOL

**Ar ôl dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth a'r canllawiau ategol a gyhoeddwyd gan ACAS a'r CIPD, gallwn gadarnhau bod yr wybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gyhoeddwyd gan Platfform yn gywir.**

**Ewan Hilton**, Prif Swyddog Gweithredol
Ebrill 2026

**Corrina Fiddler**, Pennaeth Pobl
Ebrill 2026

ADRODDIAD

# BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

PLATFFORM 2025

PLATFFORM